OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 58

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016

## RHAN 13

## Amrywiol

### Cymhwyso i'r Goron

**59.**—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r Goron gyda'r addasiadau canlynol.

(2) Mewn perthynas â chais a wneir i Weinidogion Cymru heblaw cais o dan adran 62D o Ddeddf 1990 (datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol: ceisiadau am ganiatad cynllunio), rhaid darllen rheoliad 11 (cais a atgyfeirir i Weinidogion Cymru heb ddatganiad amgylcheddol) fel pe bai—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) cyn "atgyfeirio" yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, yn darllen "wneud i Weinidogion Cymru o dan adran 293A o Ddeddf 1990 (datblygiad brys y Goron: cais)(**1**) neu ei"; a

(ii) cyn "atgyfeirio'r" yn darllen "gwneud neu"; a

(b) ym mharagraff (2), cyn "atgyfeirio" yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, yn darllen "wneud o dan adran 293A o Ddeddf 1990 neu ei".

(**1**) Mewnosodwyd adran 293A gan adran 82(1) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p.5) ("Deddf 2004") a diwygiwyd yr adran gan adran 16 ac Atodlen 2, paragraffau 8 a 9 ac adran 27 a pharagraffau 1 ac 17(1) i (3) o Atodlen 4 i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc. 4). Mae adran 118(3) o Ddeddf 2004 yn darparu bod cyfeiriad yn Atodlen 1 Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) at ddeddfiad a ddiwygiwyd gan Ddeddf 2004 yn gyfeiriad at y deddfiad fel y-I diwygiwyd felly.